**Datganiad Ysgrifenedig – Cyllid i gefnogi ein heconomi wledig**
**ATODIAD – Rhestr o gynlluniau a fydd yn cael eu hariannu**

| Cynllun | Disgrifiad | Cyllideb |
|---|---|---|
| Creu Coetir Glastir | Cymorth Grant i gynyddu arwynebedd y coetir sy'n cael ei blannu yng Nghymru. | £10,000,000 |
| Adfer Coetir Glastir | Gwaith cyfalaf i ailstocio, ffensio a chynnal y gweithrediadau cysylltiedig ar safleoedd. | |
| Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren | Buddsoddiadau a fydd yn gwella potensial coedwigaeth neu sy'n ymwneud â chynaeafu, prosesu ac ychwanegu gwerth at gynhyrchion coedwigaeth. | £2,000,000 |
| Y Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles | Cynllun i gefnogi prosiectau sy'n gwneud gwelliannau i adnoddau naturiol mewn ardaloedd preswyl, gan ddarparu manteision ar gyfer pobl, busnesau a'u cymunedau | £16,500,000 |
| Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy | Cynllun sy'n cefnogi prosiectau cydweithredol ar raddfa tirwedd, sy'n gweithredu i wella ein hadnoddau naturiol mewn modd sy'n ddarparu manteision i fusnesau ffermio a busnesau a chymunedau gwledig. | £3,000,000 |
| Y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy | Buddsoddiadau mewn seilwaith ar ffermydd â'r nod o wella'r ffordd mae maethynnau'n cael eu defnyddio ar ffermydd. | £8,000,000 |
| Y Grant Busnes i Ffermydd | Grant i helpu busnesau ffermio i fuddsoddi mewn technoleg ac offer newydd i wella eu perfformiad technegol, ariannol ac amgylcheddol. | £8,500,000 |
| Y Grant Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd | Grant sydd â ffocws ar wella cynhyrchiant busnesau a chynhyrchiant yn y gadwyn gyflenwi, cadernid busnesau a rheoli risg drwy fuddsoddiadau wedi eu targedu mewn pobl a thechnoleg. | £23,000,000 |
| Grantiau Bach Glastir – Dŵr | Grantiau i gefnogi buddsoddiadau mewn gweithgareddau sy'n arwain at welliannau i ansawdd dŵr, aer a phridd, wrth hefyd wella bioamrywiaeth ar ffermydd. | £3,000,000 |
| Grantiau Bach Glastir – Carbon / Tirwedd a Pheillwyr | Grantiau i wella bioamrywiaeth ar ffermydd, gan wella ansawdd aer, dŵr a phridd a rhoi manteision amgylcheddol, a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a rheoli dŵr. | £3,000,000 |
| Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig | Cynllun i greu a datblygu microfusnesau a busnesau bach nad ydynt yn fusnesau amaethyddol. | £2,000,000 |

**Datganiad Ysgrifenedig – Cyllid i gefnogi ein heconomi wledig**
**ATODIAD – Rhestr o gynlluniau a fydd yn cael eu hariannu**

| | | |
|---|---|---|
| Monitro a Gwerthuso | Buddsoddiad i lywio'r gwaith o gyflawni prosiectau presennol yr RDP a datblygu Rhaglen/prosiectau ar gyfer y dyfodol | £150,000 |
| Cyflawni Llywodraeth Cymru | Cynnal, cefnogi a pharhau â'r gyfres o geisiadau'r RPWT (CAPIT / GIS / RPW Ar-lein) sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni a gweinyddu cynlluniau'r RDP 2014–2020 | £6,000,000 |
| Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio (Ymwrthedd Gwrthficrobaidd) | Bydd y rhaglen Ymwrthedd Gwrthficrobaidd yn gweithio gyda cheidwaid anifeiliaid a milfeddygon i sicrhau bod gwrthfiotigau'n parhau i fod yn effeithiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r rhaglen hefyd yn ystyried agweddau amgylcheddol ar reoli ymwrthedd gwrthficrobaidd. | £4,000,000 |
| Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio (Camau Gweithredu Peilot ar gyfer Cydlyniant Cymunedol a Chymorth i Adferiad Gwyrdd) | Cynllun i barhau i gefnogi'r gwaith o ailbwrpasu gweithgareddau cydlyniant cymunedol drwy feithrin arloesi, cynnal gweithgareddau peilota a manteisio i'r eithaf ar ddigideiddio. | £1,000,000 |
| Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio (Dulliau Arloesol a Thwf Cydweithredol) | Cynllun i annog a symbylu dulliau arloesol a chyfleoedd ar gyfer cydweithredu yn y sector garddwriaeth. | £2,000,000 |
| Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio (Camau Gweithredu Peilot ar gyfer Twf Gwyrdd a'r Economi Gylchol) | Cynllun i gefnogi gweithgareddau peilot i alluogi dull sy'n cynnwys yr holl gadwyn gyflenwi; gan ychwanegu gwerth a chreu ymdeimlad o le a threftadaeth ddiwylliannol yng Nghymru drwy brosesu a marchnata cynhyrchion nad ydynt yn Atodiad. | £1,000,000 |
| Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio – (Twristiaeth Bwyd) | Cynllun sydd â'r nod o roi hwb i economi bwyd ac ymwelwyr Cymru drwy gydweithredu rhwng gweithredwyr yn y sectorau ffermio, bwyd a thwristiaeth a sectorau ategol fel y sector gwasanaethau bwyd a lletygarwch. | £3,000,000 |
| Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio (Bwyd – y Cynllun Adfer o COVID-19) | Cynllun sydd â'r nod o ddatblygu ffyrdd arloesol o ddefnyddio cynhyrchion cynradd, yn benodol bwyd a gwlân, ond yn cynnwys cynhyrchion eraill. | £3,500,000 |

**Datganiad Ysgrifenedig – Cyllid i gefnogi ein heconomi wledig**
**ATODIAD – Rhestr o gynlluniau a fydd yn cael eu hariannu**

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio (Trafnidiaeth Gymunedol) | Cynllun i gefnogi cynlluniau trafnidiaeth gymunedol lleol | £2,400,000 |
| Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio (Rownd 6) | Cynllun i gefnogi busnesau, sefydliadau a chymunedau i fod yn fwy cadarn drwy fynd i'r afael â materion fel tlodi yn y cefn gwlad, cynaliadwyedd ariannol, newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd, tlodi mewn gwaith ac allgáu cymdeithasol. | £2,970,000 |
| Cyswllt Ffermio – y Gwasanaeth Cynghori | Cynllun i ddarparu cyngor annibynnol, i'r bwrpas, parhaus, un i un neu ar gyfer grwpiau, i wella rheoli cynaliadwy a pherfformiad economaidd ac amgylcheddol busnesau bach a chanolig sy'n gweithredu yn y sectorau ffermio a choedwigaeth yng Nghymru. | £1,875,000 |